

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 14 Mai 2019 a gynhaliwyd wedi'r cyfarfod blynyddol yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:15 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts	Nerys John	
Eifion Williams		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Agorwyd y cyfarfod misol wedi'r cyfarfod blynyddol.	
1.2	Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau oddi wrth, y Cynghorydd Gruff John, Cynghorydd Aled Emyr, Cynghorydd Iestyn Williams, Cynghorydd Mei Gwilym, Chynghorydd Eiliw Williams a'r Cynghorydd Einir Coates..	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	<p>Gwahoddwyd Y Cynghorydd Sir i gyflwyno'i adroddiad:</p> <p>Ategodd y Cynghorydd Sir dolchiadau Nerys John a Iwan Huws at y Cynghorydd Daniel Williams a diolch iddo am ei waith tuag at gadeirio y Cynghor Cymuned er sawl blwyddyn.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi mynychu cyfarfod yn y Galeri ynglyn a datblygu safle Ferodo. Cyfarfod blaenorol cyn bod cais Cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ynglyn a gwneud pentref gwyliau ar y safle. Bydd rhanfwyaf o'r datblygiad o fewn Y Felinheli; felly bydd angen ystyried y cais yn fanwl a chyflwyno sylwadau. Mae'r datblygwr am adeiladu cannoedd o log cabins. Bydd rhan ochr Y Felinheli yn ardal "Holiday Lets" lle gobeithir bydd yr ardalyn cael budd ohonno. Mae angen bod yn ofalus.</p> <p>Bydd Ffordd Llwyn yn cael gwaharddiad trafndiaeth dros dro tra bo gwaith yn cael ei cynnal a'r y tyllau o fewn y ffordd.</p> <p>Mae cais wedi ei dderbyn i gyflwyno "speed bumps" ger yr ysgol. Mae yna bryderon ynglyn a gorr-yrru ger yr ysgol. Deallir bod yr ysgol wedi ysgrifennu at y rhieni. Dywedodd y Cynghorydd Casi Roberts fel rhiant nid oedd wedi derbyn llythyr. Y Cynghorydd Sir i ddatgan hyn yng nghyfarfod nesaf y Llywodraethwyr.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Sir bod defnyddio App Cyngor Gwynedd yn hawdd ac yn well na defnyddio'r wefan.</p> <p>Adroddwyd bod fanaliaeth wedi bod yn y pentref a bod angen anfon at yr heddlu. Cafwyd drafodaeth ynglyn a diffyg gweld heddlu ar y stryd yn y pentref. Ystyriwyd ysgrifennu at Comisiynydd yr Heddlu ond Y Clerc i Anfon at Bennaeth yr Heddlu yng Nghaernarfon.</p>	
		CLERC
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Derbyniwyd yr Adroddiad Blynnyddoedd 2018 – 2019 y Cyngor ac fe llofnodwyd gan y Cadeirydd.	SWYDDOG ARIANNOL
4.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad ariannol am y mis blaenorol ynghyd a manylion gwariant yn mis Ebrill. Derbyniwyd hwy.	
4.3	Cyflwynwyd dogfen Canllawiau ar daliadau i aelodau Cynghorau Cymuned er gwybodaeth.	
4.4	Cyflwynwyd ffurflen tynnu allan o dderbyn cydnabyddiaeth i aelodau i'r aelodau oedd yn bresennol.	
4.5	Cytunwyd i dalu premium yswiriant y Cyngor.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill fel rhai cywir wedi fan newidiadau.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	C19/0358/20/LL – Estyniad i'r balcony blaen a chodi balcony newydd yn y cefn – 11 Ffordd Hebog, Y Felinheli LL56 4QZ – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
6.2	C19/00357/20/R3 – Newidiadau ac estyniad – Cnolfan Brynffynnon, Ffordd Brynffynnon, Y Felinheli, LL56 4SX – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
6.3	C19/0384/20/LL – Estyniadau – 1 Ffordd Heulyn Y Felinheli LL56 4QT – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
7.0	PRIFFYRDD	
7.1	Cyfyngiadau Parcio – Hen Gei Llechi. Trafodwyd y mater a chyfeirio at y cyfarfod safle gymerodd le yr wythnos diwethaf. Nid oes unrhyw wybodaeth pellach wedi ei dderbyn yn dilyn y cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi derbyn ebyst ar y mater oddi wrth Allan Bowers a byddai yn anfon yr ebyst ymlaen at y Clerc.	DW
7.2	Trafodwyd mater problemau sydd yn codi pan mae'r ffordd osgoi yn cael ei chau oherwydd digwyddiad. Er bod ymateb yr heddlu wedi ei dderbyn mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y mater a'r Heddlu, Asiant Cefnffyrdd a'r Cyngor Sir. Y Clerc i wneud trefniadau a'r gyfer cyfarfod a'r tri corf.	CLERC
8.0	ADRODDIADAU LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
8.1	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John y bydd yn trefnu adolygiad o'r llwybrau yn mis Medi oherwydd erbyn hynny bydd tyfiant y gwrychoedd wedi eu torri erbyn hynny. Fe atgoffwyd y Cyngor bod y Cyngor Sir wedi gofyn i'r torriad cyntaf gael ei wneud wedi i'r blodau gwyllt flodeuo.	NJ
8.2	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John ei body n siomedig bod fandaliaeth wedi cymryd lle yn y Cysgofan lle roedd lluniau wedi eu gosod ar ddwy ffenest. Trafodwyd y mater. Cyflwynodd y Cynghorydd Nerys John syniad o osod rhybydd ar gornel y llun sydd wedi ei dorri. Fe roddwyd hawl i'r Cynghorydd i symud ymlaen i gael gosod y rhybydd.	
8.3	Cafwyd adroddiad oddi wrth y Cynghorydd Daniel Williams bod traed haearn ar gyfer y postiau i'r cysgodfannau	DW

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Aberpwill wedi eu derbyn a bellach bydd yn trefnu amser iddynt cael eu gosod.	
9.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES, PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
9.1	Dywedodd y Cyngorydd Nerys John bod y grud wedi ei blaenu ar safle Moriah.	
10.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Cyflwynwyd cymhariaeth ffioedd mynwentydd eraill o fewn yr ardal. Penderfynwyd bod yr is-bwyllgor yn eu hystyried a dod ar argymhellion i'r cyfarfod misol nesaf.	CR/EW
11.0	PROSIECTAU	
11.1	Dywedodd y Cyngorydd Nerys John bod Cyngor Gwynedd yn fodlon gyda cynlluniau y Cyngor Cymuned ar gyfer y Cae Chwarae. Hyd yma nid oedd wedi cael dim lwc ar gyfer cael grantiau.	
11.2	Dywedodd y Clerc bod hyfforddiant ar gael ar gyfer cyflwyno ceisiauad am grantiau. Roedd y Cyngorydd Nerys John yn awyddus i'r Cyngorydd Eiliw Williams i gymryd yr awenau ynglyn a cheisio am grantiau a byddai hi yn hoffi mynd a'r yr hyfforddiant er mwyn gallu rhoi cymorth i Eiliw.	CLERC
11.3	Cafwyd adroddiad gan Casi Rberts ynglŷn â llwyddiant casglu sbwriel o amgylch y pentref. Dywedodd bod angen mwy o offer. Mae cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd ond nid oes dim wedi ei dderbyn.	
12.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
12.1	Mae "keysafe" wedi ei osod ar ddrws y cloc.	
13.0	ADRODDIAD Y NEUADD	
13.1	Mae adroddiad wedi ei dderbyn oddiwrth y Pensaer. Mae angen adeiladu porch a chael mynediad i'r hen ystafell y boiler. Mae angen hefyd cael offer ar gyfer venting a heat recovery yng ngwaelod y neuadd er mwyn trin y llaith. Bydd y pensaer yn gallu Cynllunio a edrych ar ol y prosiect; mae cais am pris wedi ei wneud. Bydd y Cyngorydd Daniel William yn anfon ymlaen yr adroddiad i aelodau'r neuadd.	
13.2	Dywedodd y Cyngorydd Daniel Williams bod cynnig wedi ei wneud fan Rowland Phillips o Quiet Stone i gyflwyno offer "Sound Deadening" i'r neuadd yn rhad ag am ddim. Maint rhain fydd 66 x 1200 a byddant yr un lliw a phaent y neuadd. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd derbyn y rhodd.	
13.3	Adroddwyd bod y rhai oedd hefo diddordeb yn swydd y gofalwr wedi thynnu eu diddordeb yn ol. Penderfynwyd codi posteri a rhoi'r hysbyseb am ofalwr ar daflen facebook y Cyngor. Dywedodd y Cyngorydd Daniel Williams ei fod wedi gofyn i'r Clerc cael pris gan gontractwyr i lanhau y neuadd rhag ofn na fydd ymgweiswyr am y swydd. Diwedd y mis bydd Cwmni Drama yn y neuadd am bedwr diwrnodd	DW/NJ/ CLERC
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	Derbyniwyd lythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd ynglyn a chytundeb gwasaneth toiledau cyhoeddus o fewn y Sir. Bydd pris cadw'r gwasanaeth am flwyddyn yn costio £4000 neu £2000 am hanner blwyddyn. Penderfynwyd derbyn gwasnaeth am flwyddyn.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
	Dim	
16.0	GWEFAN	
16.1	Mae storfa cadw lluniau ar y wefan wedi ei lenwi. Mae'n bwysig cadw'r lluniau fel archif i hanes y pentref. Er mwyn cael mwy o le mae cost o £3.99 y flwyddyn. Penderfynwyd i dalu hyn er mwyn sicrhau cael lle.	CR
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:15	
Llofnod:		Dyddiad: